**Gwasanaeth Swyddfa'r Post® Symudol Rhyd-y-fro**

**Newidiadau i Wasanaethau Symudol Craig-cefn-parc a Chwm-twrch Isaf**

**Mae eich cangen newydd wedi agor**

Yn ddiweddar gofynnom am eich sylwadau ynghylch rhai agweddau allweddol ar ein cynlluniau i adfer gwasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol. Cawsom saith ymateb.

Rydym yn falch dros ben yn rhoi gwybod i chi ein bod wedi adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i gymunedau Craig-cefn-parc a Chwm-twrch Isaf trwy gyflwyno Gwasanaeth Allgymorth Gwesteiol Symudol. Dechreuodd Gwasanaeth Allgymorth Gwesteiol Symudol yng Nghraig-cefn-parc ddydd Llun 3 Rhagfyr 2018 ac yng Nghwm-twrch Isaf ddydd Iau 6 Rhagfyr 2018.

Rydym hefyd wedi gwneud mân newidiadau i oriau agor Gwasanaethau Symudol yng Nghilmaen-gwyn, Pontneddfechan, Glan-rhyd, Y Coelbren ac Ynys-wen.

Roedd yr adborth hwn yn cefnogi ein cynlluniau, oherwydd roedd y cymunedau yn croesawu adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r pentrefi uchod.

**Pwyntiau allweddol a godwyd:**

- Oriau

**Ymateb i bwyntiau allweddol:**

**Oriau**

Rydym yn deall y gall yr oriau agor fod yn llai cyfleus i rai cwsmeriaid nag i eraill. Fodd bynnag, rydym o'r farn fod yr oriau agor newydd yn adlewyrchu'r defnydd o'r gwasanaeth gan gwsmeriaid, a bydd yn golygu y gallwn gynnal gwasanaeth Swyddfa'r Post i'r gymuned yn yr hirdymor. Byddwn yn dal i adolygu a monitro'r gwasanaeth drwy'r amser, a phe bai cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r gwasanaeth, byddem yn ystyried newid yr oriau agor yn unol â hynny.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau defnyddio'r Swyddfa Bost newydd.




Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk